


# Llanelli

## STRATEGAETH CREU LLEOEDD

Mawrth 2026

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# Cynnwys


**Cyflwyniad ..... 1**

Ynglŷn â Strategaethau Creu Lleoedd ..... 2

Y Dull ..... 3

**Crynodeb ..... 4**

**Ystyriaethau pwysig ..... 8**

Tueddiadau cyfredol ..... 9

**Lleoliad ..... 12**

**Yr amgylchfyd cyhoeddus ..... 20**

**Symudiad ..... 24**

**Cymysgedd o ddefnyddiau ..... 28**

**Hunaniaeth ..... 32**

**Pobl a chymuned ..... 36**

**Newid ar waith ..... 54**







# Cyflwyniad

Ym mis Medi 2025 aeth Cyngor Sir Caerfyrddin ati i ddatblygu strategaethau creu lleoedd ar gyfer tair prif dref y Sir. Mae creu lleoedd yn ganolog i ymagwedd Llywodraeth Cymru at gynllunio. Mae creu lleoedd yn helpu i lunio datblygiad, yn hytrach na'i gymeradwyo yn unig, ac mae'n ceisio cynnwys cymunedau mewn ffordd ystyrlon. Mae hefyd yn helpu i greu dull cydweithredol rhwng partneriaid sy'n ceisio gweithio mewn lle. Nid yn unig y mae'n canolbwyntio ar adeiladau, ond hefyd ar sut y mae pobl yn symud o gwmpas y lle a'r hyn sy'n peri eu bod eisiau treulio amser yno.

Bydd y cynllun creu lleoedd hwn yn cefnogi prif randdeiliaid Llanelli i ymgeisio am gyllid gan gyrff ariannu gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Bydd gan bob un o randdeiliaid Llanelli rhan i'w chwarae yn y broses o gyflawni'r cynllun creu lleoedd hwn.


# Ynglŷn â Strategaethau Creu Lleoedd

Mae creu lleoedd yn ymwneud â chreu lleoedd iach, cynaliadwy sy'n cefnogi llesiant cymunedol. Mae Comisiwn Dylunio Cymru wedi helpu i nodi'n glir beth yw creu lleoedd drwy ddatblygu Siarter Creu Lleoedd Cymru. Mae'r siarter yn nodi chwe egwyddor creu lleoedd sy'n helpu i gyfrannu at greu a chynnal lleoedd da. Y rhain yw:

**Pobl a chymuned** – mae'r gymuned leol yn ymwneud â datblygu cynigion. Mae anghenion, dyheadau, iechyd a llesiant pawb yn cael eu hystyried ar y dechrau. Caiff cynigion eu llunio i helpu i ddiwallu'r anghenion hyn yn ogystal â chreu, integreiddio a diogelu a/neu wella ymdeimlad o gymuned ac i hyrwyddo cydraddoldeb.

**Hunaniaeth** – mae rhinweddau cadarnhaol, unigryw lleoedd presennol yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Caiff nodweddion a chyfleoedd unigryw lleoliad, gan gynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith, nodweddion ffisegol adeiledig a naturiol, eu nodi ac ymatebir iddynt.

**Symudiad** – rhoddir blaenoriaeth i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn darparu dewis o ddulliau trafnidiaeth ac osgoi dibyniaeth ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol wedi'u cynllunio'n dda ac yn ddiogel yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol ehangach, ac mae gorsafoedd ac arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u hintegreiddio'n dda.




*Ffynhonnell: Canllaw Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru, wedi'i addasu o Sense of Place Model, Punter (1991)*

**Cymysgedd o ddefnyddiau** – mae gan leoedd ystod o ddibenion sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol, twf busnesau lleol a mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus. Mae dwysedd datblygu a chymysgedd o ddefnyddiau a deiliadaeth yn helpu i gefnogi cymuned amrywiol ac amgylchfyd cyhoeddus bywiog.

**Amgylchfyd cyhoeddus** – mae strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u diffinio'n dda, maent yn groesawgar, yn ddiogel ac yn gynhwysol gyda hunaniaeth unigryw. Maent wedi'u cynllunio i fod yn gadarn ac yn addasadwy gyda thirwedd, seilwaith gwyrdd a draeniau cynaliadwy wedi'u hintegreiddio'n dda. Maent wedi'u cysylltu'n dda â lleoedd presennol ac yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac ystod o weithgareddau i bawb.

**Lleoliad** – dylai lleoedd dyfu a datblygu mewn modd sy'n defnyddio tir yn effeithlon, yn cefnogi ac yn gwella lleoedd presennol ac sydd wedi'i gysylltu'n dda. Mae lleoliad tai, cyflogaeth a hamdden a chyfleusterau eraill wedi'i gynllunio i helpu i leihau'r angen i deithio.

Nid yw strategaethau creu lleoedd yn uwchgynlluniau manwl, ac ni ddylent geisio bod. Efallai y byddant yn ystyried rhai materion dylunio manylach, ond y brif swyddogaeth yw darparu crynodeb clir o'r materion allweddol ar gyfer lle, cyfiawnhau pa faterion yw'r flaenoriaeth, a darparu atebion i'r materion hynny ar ffurf cyfres o gamau gweithredu. Dylid hefyd eu defnyddio fel fframwaith. Nid yw'r byd yn sefyll yn llonydd am oes cynllun, ac felly mae angen i gynlluniau fod â rhywfaint o hyblygrwydd. Dylent fod yn ystwyth, gan ddarparu fframwaith clir, ond heb fod yn rhy ragnodol o ran y manylion. Bydd rhai o'r camau gweithredu arfaethedig mewn cynllun creu lleoedd yn syml ac yn hawdd i'w cyflawni, a bydd rhai elfennau yn gofyn am ystyriaeth ddylunio fanwl ac ymgysylltu pellach i'w gwireddu.

# Y dull

Penodwyd cwmni Urban Foundry Ltd i gydgynhyrchu'r strategaeth creu lleoedd i Lanelli, gan weithio'n agos â'r gymuned leol a thîm Datblygu Economaidd Cyngor Sir Caerfyrddin i'w gyflenwi. Mae Ffigur 1 yn dangos beth oedd hyn yn ei olygu.

Roedd y dull yn cynnwys cynnal cylch cyntaf o ymgynghori er mwyn deall beth oedd y bobl yn eu hystyried yn anawsterau ac yn gyfleoedd yn Llanelli. Cafodd hyn wedyn ei ddatblygu yn rhestr o ganlyniadau a chamau gweithredu â blaenoriaeth. Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar y rheiny a'u mireinio, yn gyntaf gyda Thasglu Llanelli, ac wedyn trwy ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r canfyddiadau cyffredinol o'r gwaith.




*Ffigur 1 - Dull cydgynhyrchu o greu strategaeth creu lleoedd*

## Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae'r strategaeth yn dechrau gyda chrynodeb o'r ffactorau ehangach a fydd yn dylanwadu ar strategaeth creu lleoedd Llanelli.

Yna mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro o amgylch pob thema creu lleoedd sy'n nodi:

- **Nawr** – beth yw'r problemau, yr heriau a'r cryfderau yn y dref
- **Ble** – beth mae pobl eisiau ei newid a'i gryfhau dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod
- **Sut** – beth yw'r camau ymarferol a fydd yn cyflawni'r newid hwn

Gall unrhyw un ddefnyddio'r ddogfen, ond mae wedi'i bwriadu fel set gyffredin o flaenoriaethau a chamau gweithredu ar gyfer partneriaid allweddol sy'n gweithio yn Llanelli. Mae hyn yn cynnwys:

- **Tasglu Llanelli** – darparu fframwaith ar gyfer meysydd blaenoriaeth i'r Tasglu ganolbwyntio arnynt
- **Cyngor Tref Llanelli** – darparu tystiolaeth ar gyfer prosiectau a gweithgareddau a helpu i lywio'r gweithgareddau sydd â blaenoriaeth yn y dref
- **Ardal Gwella Busnes (AGB) Llanelli** – darparu tystiolaeth ar gyfer gwaith presennol a gwaith arfaethedig
- **Cyngor Sir Caerfyrddin** – arwain y camau gweithredu sydd â blaenoriaeth ar gyfer y Tîm Trefi ac adrannau eraill y Cyngor
- **Y sector cymunedol a gwirfoddol** – darparu tystiolaeth a chefnogaeth ar gyfer prosiectau a rhaglenni
- **Busnesau, Datblygwyr a Buddsoddwyr** – dangos ble mae yna gefnogaeth gref i ddatblygiadau
- **Unigolion** – deall beth mae'r Tasglu a'r Cyngor Sir yn ei flaenoriaethu i wella'r dref a darparu fframwaith atebolrwydd ar gyfer y gwaith hwn

Bob blwyddyn bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn paratoi adroddiad ar gyfer Tasglu Llanelli gan helpu i nodi'r cynnydd a wneir tuag at gyflawni'r strategaeth.

# Crynodeb

Dyma grynodeb byr o'r sefyllfa bresennol, beth rydym am i effeithiau'r strategaeth hon fod, a sut y gallwn gyflawni'r effeithiau hynny. Mae'r adrannau sy'n dilyn yn y strategaeth hon yn rhoi mwy o fanylion am bob un o'r meysydd hyn.

# Sut mae pethau

Mae gan Lanelli asedau cryf. Mae'n agos at yr arfordir, mae ganddi gysylltiadau trafnidiaeth da ac mae'n elwa o gymunedau cryf, marchnad dan do sy'n uchel ei pharch, sefydliadau diwylliannol a'r Scarlets. Ond nid yw canol y dref yn gwneud y gorau o'r asedau hyn nac yn gweithredu fel canolbwynt i'r ardal ehangach.

Nid oes gan ganol y dref ymdeimlad clir o gyfeiriad, ac mae wedi mynd yn dameidiog yn ffisegol ac yn economaidd. Nid yw'r orsaf, y canol, y cymdogaethau cyfagos a'r arfordir wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd. Mae rhai llwybrau i mewn i'r dref yn anneniadol, mae amharu wedi bod ar y patrwm strydoedd hanesyddol, ac mae sawl adeilad a safle amlwg yn wag neu'n cael eu tanddefnyddio.

Nid oes gan ganol y dref lawer o siopau, gweithgareddau hamdden a chyfleusterau cymunedol ac mae'n ei chael hi'n anodd cystadlu gyda safleoedd adwerthu y tu allan i'r dref ac ar-lein. Ystyrir bod y mannau cyhoeddus yn fudr, wedi'u cynnal a'u cadw'n wael ac yn brin o wyrddni.

Mae adeiladau gwag, ymddygiad gwrthgymdeithasol a goleuadau gwael yn ychwanegu at deimlad bod y canol wedi cael ei esgeuluso. Mae llawer o bobl yn teimlo'n anniogel, yn enwedig ar ôl iddi dywyllu. Mae swm a chyflymder y traffig, defnydd anniogel o feiciau a sgwteri, trafnidiaeth gyhoeddus anghyson a phryderon am barcio hefyd yn effeithio ar brofiadau pobl o'r dref.

Nid yw hunaniaeth unigryw Llanelli bellach i'w gweld yn glir. Mae hanes diwydiannol y dref, y Gymraeg, ei hunaniaeth chwaraeon, ei cherddoriaeth a'i diwylliant creadigol yn gosod sylfeini cadarn, ond mae pobl yn teimlo ei bod wedi colli ei hymdeimlad o falchder a phwrpas

Mae pobl hefyd yn teimlo nad ydyn nhw'n cael eu cynnwys yn ddigonol mewn penderfyniadau am ddyfodol y dref, ac y gallai partneriaid weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol

# Beth ydym ni am ei wella

### Canlyniadau lleoliad:

- Mwy o weithredu ynghylch polisi cynllunio canol y dref yn gyntaf
- Gwella cysylltiadau rhwng y dref a'r arfordir
- Gwella trefniant gofodol y dref
- Gwella adeiladau allweddol
- Cynyddu dwysedd preswyl yn y dref gyfagos
- Cydlynu polisïau/prosesau mewnol y Cyngor yn well i gefnogi datblygiad canol y dref
- Gwella'r modd o fesur a chyfathrebu cynnydd

### Canlyniadau cymysgedd o ddefnyddiau:

- Gwella'r cymysgedd o ddefnyddiau yng nghanol y dref
- Cynyddu'r defnydd o'r amgylchfyd cyhoeddus ar gyfer hamdden
- Mwy o fusnesau newydd yn cael cymorth
- Gwella adeiladau allweddol ledled y dref

### Canlyniadau'r amgylchfyd cyhoeddus:

- Cynnal a chadw a gwella mannau presennol
- Mwy o seilwaith gwyrdd ar hyd a lled y dref
- Mwy o gyfleoedd i chwarae yn y strydlun
- Mwy o bobl yn gwneud mwy o ddefnydd o leoedd cyhoeddus (a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol o ganlyniad)
- Gwella diogelwch ar y stryd (yn enwedig gyda'r nos)

### Canlyniadau symudiad:

- Gwella'r amgylchedd i gerddwyr
- Gwella'r seilwaith beicio
- Gwella cysylltiadau â'r orsaf drenau a thu hwnt
- Gwella trafnidiaeth gyhoeddus
- Ffyrdd mwy diogel
- Gwella mynediad i ganol tref Llanelli ar gyfer arosiadau byr

### Canlyniadau hunaniaeth:

- Mwy o ymdeimlad o hunaniaeth i'r dref
- Cryfhau'r sector diwylliannol lleol
- Gwella brand y lle
- Cryfhau'r Gymraeg trwy weithgareddau creu lleoedd

### Canlyniadau pobl a chymunedau:

- Mwy o gyfleoedd i bobl fod yn rhan o ddatblygiad y dref
- Cydgysylltu polisïau/prosesau mewnol y Cyngor yn well i gefnogi proses ddatblygu canol y dref
- Gwella cysylltiadau â'r sector gwirfoddol
- Gwella arferion gweithio rhwng y Cyngor Tref a'r Cyngor Sir
- Creu trefi mwy iach

# Sut y byddwn ni'n cyrraedd yno

Mae'r meysydd gwaith allweddol a nodwyd yn y strategaeth creu lleoedd yn cynnwys:

### Ailgysylltu'r dref â chymunedau cyfagos, yr orsaf a'r arfordir –

Mae'r strategaeth yn cefnogi gwell llwybrau, croesfannau, arwyddion a thrafnidiaeth gyhoeddus rhwng canol y dref, yr orsaf reilffordd, y glannau a chymunedau cyfagos.

### Rhoi canol y dref yn gyntaf –

Dylai cynlluniau, buddsoddiad a phenderfyniadau'r dyfodol am adeiladau a gwasanaethau cyhoeddus ystyried eu heffaith ar y canol. Mae hyn yn cynnwys archwilio a ellir symud mwy o swyddogaethau dinesig i'r dref a chydlynu gwasanaethau'r Cyngor i gefnogi busnesau lleol yn well. Bydd canllaw dylunio syml yn helpu i sicrhau bod datblygiadau newydd a gwelliannau i adeiladau yn cryfhau cymeriad, ansawdd a chysylltedd Llanelli.

### Defnyddio adeiladau a safleoedd allweddol unwaith eto –

Mae'r strategaeth yn nodi cyfleoedd i ailddatblygu safleoedd amlwg a chywiro cynllun tameidiog y dref. Bydd mwy o gartrefi, gan gynnwys uwchben siopau, ac o gymysgedd o fath a deiliadaeth, yn dod â gweithgarwch a gwyliadwriaeth naturiol i'r canol.

### Cefnogi cymysgedd ehangach o ddefnyddiau –

Bydd busnesau annibynnol a busnesau newydd yn cael eu cefnogi trwy fannau dros dro ac yn y cyfamser, cymorth busnes a llwybrau cyflymach i grantiau llai. Mae'r cynllun hefyd yn ceisio cael mwy o siopau, mannau bwyd, cyfleoedd hamdden, gweithgareddau diwylliannol a chyfleoedd gyda'r nos ar gyfer gwahanol oedrannau.

### Creu mannau mwy diogel, mwy gwyrdd a mwy croesawgar –

Mae'r blaenoriaethau yn cynnwys gwella Gerddi'r Ffynnon, ychwanegu gwyrddni trwy gyfrwng strategaeth seilwaith gwyrdd ar lefel y dref, ardaloedd chwarae a goleuadau a chreu mwy o weithgarwch o amgylch Stryd Vaughan, Stryd Stepney a Stryd Cowell. Mae cynnal a chadw'r dref yn well a phlismona gweladwy yn hollbwysig er mwyn helpu pobl i deimlo'n fwy diogel.

### Cryfhau hunaniaeth Llanelli –

Bydd y strategaeth yn adeiladu ar asedau presennol gan gynnwys y farchnad, sefydliadau celfyddydol lleol, traddodiadau cerddoriaeth a chorawl, diwydiannau creadigol, y Scarlets a'r Gymraeg. Bydd digwyddiadau, gweithgareddau diwylliannol, goleuadau treftadaeth a brandio cryfach yn helpu i greu ymdeimlad newydd o hunaniaeth a balchder.

### Rhoi cyfranogiad cymunedol ar waith –

Bydd y Tasglu yn dod â phartneriaid at ei gilydd i yrru'r strategaeth yn ei blaen, gyda chefnogaeth trwy ymgysylltu'n rheolaidd â phreswylwyr, masnachwyr, pobl ifanc a mudiadau gwirfoddol. Bydd cynnydd yn cael ei fesur a'i adrodd fel y gall pobl weld beth sy'n newid.

# Ystyriaethau pwysig

Yn yr adran hon rydym yn nodi rhai tueddiadau byd-eang, cenedlaethol a lleol a fydd yn llywio'r strategaeth creu lleoedd. Cofiwch ein bod wedi darparu crynodeb syml o'r tueddiadau i helpu i esbonio'r cefndir y tu ôl i'r adroddiad hwn. Mae'r atodiad technegol yn cynnwys rhagor o fanylion, gan gynnwys y data a'r wybodaeth sy'n sail i'r tueddiadau hyn.

# Tueddiadau cyfredol

## Tueddiadau yn ymwneud â phobl

Yn gyffredinol, mae poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn tyfu, ac mae hyn hefyd yn wir am Lanelli. Rhwng 2011 a 2021 cynyddodd poblogaeth Llanelli 3%. Ond mae newidiadau wedi bod yn y ddemograffeg. Mae cyfran y bobl ifanc (dan 15 oed) wedi cynyddu 1% a chafwyd cynnydd o 1% yn nifer y bobl oedran gweithio (16 i 64 oed) hefyd. Cododd nifer y bobl hŷn (dros 65 oed) 10%. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn disgyn - o 25% yn siarad Cymraeg yn 2011 i 23% yn 2021.

Mae iechyd pobl Sir Gaerfyrddin yn gwella'n gyffredinol. Yn 2021, dywedodd 47.2% o drigolion Sir Gaerfyrddin bod eu hiechyd yn "dda iawn", gan gynyddu o 45.7% yn 2011. Tra bod y rheiny oedd yn disgrifio eu hiechyd fel "gwael" wedi gostwng o 6.0% i 5.2%. Disgynnodd canran y bobl a adnabuwyd yn bobl anabl a chyfyngedig iawn yn Sir Gaerfyrddin o 13.0% i 10.5%, a chanran y bobl a adnabuwyd yn bobl anabl ac ychydig yn gyfyngedig o 11.4% i 11.1%. Mae'r data presennol ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn awgrymu ychydig o gwymp yn y disgwyliad oes. Mae 51% o bobl Llanelli yn weithgar yn economaidd, a 3% yw'r gyfradd ddiweithdra.

Mae'r rhain yn dueddiadau pwysig. Mae'n helpu i ddangos bod Llanelli yn tyfu, ond mae hefyd yn newid. Mae pobl yn hŷn ond mae iechyd wedi gwella ac mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn gostwng. Mae diweithdra'n isel ac mae'r lefelau gweithgarwch economaidd wedi codi ychydig. Mae hyn yn bwysig i greu lleoedd gan ei fod yn helpu i dynnu sylw at bwysigrwydd cryfhau'r Gymraeg drwy bob gweithgaredd a chydnabod sut y mae'r boblogaeth yn newid dros amser.

## Tueddiadau o amgylch canol trefi

26.4% yw cyfradd siopau gwag Llanelli, sef y gyfradd siopau gwag uchaf yn y sir. Ceir cyfuniad rhesymol o siopau cadwyn cenedlaethol a siopau annibynnol bach, er bod y siopau cadwyn cenedlaethol yn canolbwyntio'n bennaf ar y parciau adwerthu y tu allan i ganol y dref. Roedd Astudiaeth Adwerthu Sir Gaerfyrddin 2023 yn helpu i dynnu sylw at ddyhead defnyddwyr canol tref Llanelli am lai o siopau gwag, gwella diogelwch a gwaith diweddaru neu ailwampio.

Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn i ddulliau 'canol y dref yn gyntaf' ac yn rhoi pwyslais ar greu lleoedd, ond ceir pwysau parhaus gan ddatblygiadau y tu allan i'r dref (rhai ohonynt yn newydd, rhai wedi'u hadeiladu yn y gorffennol). Ynghyd â hyn, mae costau cyfalaf deunyddiau a llafur hefyd wedi cynyddu'n sylweddol, gan wneud datblygu yn fwy costus; ceir pwysau chwyddiant ar gostau refeniw ar gyfer staffio ynghyd â chynnydd i Yswiriant Gwladol Cyflogwyr, a chynnydd sylweddol mewn gorbenion eraill (yn enwedig cyfleustodau), ynghyd â lleihau neu ddileu rhyddhad ôl-Covid ar ardrethi busnes.

Ar yr un pryd, mae pŵer prynu yn yr economi wedi'i wasgu ar gyfer unigolion ond hefyd i lawer o gwmnïau a chyrff sector cyhoeddus. Y prif golledion yn sgil Covid oedd y cwmnïau cenedlaethol mawr, a oedd yn amlwg iawn ar y stryd fawr mewn trefi a dinasoedd mwy. Mae'n annhebygol iawn y bydd cwmnïau cenedlaethol eraill yn dod i gymryd eu lle. Mae hyn yn creu effeithiau niferus, gan gynnwys canfyddiadau negyddol ynghylch sut y caiff trefi eu gweld a cholli siopau stryd fawr a fyddai'n denu ymwelwyr.

Bum mlynedd ar ôl i'r pandemig Covid-19 newid y ffordd rydym yn gweithio, yng Nghymru mae 42% o weithwyr yn gweithio gartref o leiaf peth o'r amser[1].Mae mwy o bobl yn gweithio gartref yn barhaol a llawer mwy yn gweithio mewn modd hybrid. Nod polisi presennol Llywodraeth Cymru yw cael tua 30% o'r gweithlu yn gweithio gartref ar unrhyw adeg i leihau traffig cymudwyr. Mae'n rhy gynnar i ddweud, ond er y bydd manteision amgylcheddol clir o wneud hyn, gall hefyd arwain at leihau'r galw am yr economi leol iawn yng nghanol trefi.

Ond ar draws Cymru a'r DU mae ymchwil sylweddol yn dangos sut rydyn ni am dreulio ein hamser a'r effaith a gaiff hyn ar ganol trefi. Mae'n helpu i ddangos bod trefi sy'n cofleidio dull defnydd cymysg, gyda ffocws ar y gymuned, yn mynd yn groes i'r tueddiadau cenedlaethol o ran y dirywiad mewn canol trefi. Mae'r ymchwil hefyd yn dangos bod defnyddwyr modern eisiau profiad pan fyddan nhw'n mynd i'r dref, nid mynd ar neges yn unig. Efallai y byddant yn cael coffi, yn gwneud bach o siopa, yn gweld arddangosfa, ac yn cwrdd â ffrindiau i gyd mewn un daith[2]. Mae canol trefi sy'n hwyluso'r gweithgareddau amrywiol hyn yn gweld cynnydd mewn teyrngarwch ac amser oedi.

Mae'r tueddiadau hyn yn dangos newid yn y ffordd yr ydym yn defnyddio ein hamser hamdden a'r hyn yr ydym ei eisiau gan ganol ein trefi. Maent yn dod yn gyrchfannau y mae pobl yn ymweld â nhw am sawl rheswm mewn un ymweliad. Mae hyn yn bwysig i waith creu lleoedd gan fod angen ar y strategaeth ystyried sut mae pobl yn defnyddio Llanelli ar hyn o bryd, a sut mae hynny'n debyg o newid yn y tymor canolig i hirdymor.

1 https://www.gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2026/2/3/1770823261/remote-working-national-survey-wales-april-2024-march-2025.pdf
2 https://retail-focus.co.uk/community-hubs-shopping-centres-of-the-future/#:~:text=She%20notes%20research%20by%20Gensler%2C,day%20such%20as%20cookery%20classes

## Tueddiadau ehangach

Bydd penderfyniadau a wneir yn genedlaethol yn dylanwadu ar allu Cyngor Sir Caerfyrddin a phartneriaid eraill i gyflawni'r strategaeth creu lleoedd. Mae llawer o'r cyd-destun strategol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi'r ethos y tu ôl i greu lleoedd. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi ffocws cryf ar ddatblygu cynaliadwy sydd wedi'i ymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae'r ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflawni datblygu cynaliadwy ac i wneud hynny trwy ddilyn pum ffordd o weithio:

- **Hirdymor** – meddwl y tu hwnt i atebion byrdymor
- **Atal** – atal problemau cyn iddynt ddigwydd
- **Integreiddio** – cyfuno gwahanol amcanion
- **Cydweithio** – gweithio gyda sefydliadau eraill
- **Cyfranogiad** – cynnwys pobl a chymunedau

Mae hyn wedi'i ymgorffori'n llawn yn null Cyngor Sir Caerfyrddin o lunio'r strategaeth creu lleoedd hon.

Fodd bynnag, efallai y bydd digwyddiadau byd-eang ehangach yn ei gwneud hi'n anoddach cynnal yr amgylchedd cefnogol hwn ar gyfer creu lleoedd cynaliadwy yn y blynyddoedd i ddod. Cafodd y strategaethau blaenorol ar lefel tref eu creu o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig Covid-19. Cyn y digwyddiad byd-eang hwnnw yr oedd argyfwng ariannol 2008, ac yn dilyn Covid-19 mae rhyfeloedd wedi bod yn Wcráin a'r Dwyrain Canol.

Mae'r digwyddiadau hyn yn cael effaith uniongyrchol ar greu lleoedd. Maent yn effeithio ar y straen sydd ar aelwydydd oherwydd costau byw a phrisiau tanwydd cynyddol. Maent yn effeithio ar barodrwydd busnesau i gymryd risg a gallant ei gwneud hi'n anoddach cynnal y canol trefi bywiog y mae'r strategaeth hon yn ceisio eu cefnogi.

Byddant hefyd yn effeithio ar faint o gynnydd a wneir dros ba gyfnod amser gyda'r strategaeth. Mae hyn yn rhan bwysig o ddeall creu lleoedd, mae'n ddull lleol ond mae'n uniongyrchol gysylltiedig â digwyddiadau ehangach ac amgylchedd strategol sy'n newid yn barhaus.

# Lleoliad

Ar gyfer y thema lleoliad, mae gennym ddiddordeb mewn deall pa mor dda ydym am sicrhau bod yr holl ddatblygiadau yn gwneud y lle yn well a deall a oes gennym y cymysgedd cywir o ddatblygiadau yn Llanelli.


**Mae'r egwyddorion creu lleoedd yn diffinio'r maes hwn fel:**

Dylai lleoedd dyfu a datblygu mewn modd sy'n defnyddio tir yn effeithlon, sy'n cefnogi ac yn gwella lleoedd presennol ac sydd wedi'i gysylltu'n dda. Mae lleoliad tai, cyflogaeth a hamdden a chyfleusterau eraill wedi'i gynllunio i helpu i leihau'r angen i deithio.

# Beth wnaethom ei ddarganfod

**Drwy'r ymgynghoriad, at ei gilydd cafodd 'Lleoliad' sgôr o 3.5 allan o 10 yn Llanelli**

Mae'r dadansoddiad manylach yn nodi teimlad cryf nad oes cyfeiriad clir ar gyfer dyfodol Llanelli. Roedd pobl hefyd yn teimlo nad oedd yn lle da i ddechrau busnes a bod yna ddiffyg cyfleoedd cyflogaeth da.



## Nododd yr ymgynghoriad y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Gwneud y defnydd gorau posibl o asedau** – Nodwyd bod gan Lanelli asedau ardderchog o'i chwmpas — yr arfordir, parciau, cymunedau, treftadaeth — ond nid yw canol y dref yn gweithredu fel porth neu ganolbwynt
- **Materion amrywiol** – Nododd pobl fod y llwybrau i mewn i'r dref yn anneniadol, yn enwedig y ffordd i mewn o'r gorllewin
- **Cryfhau cysylltiadau** – Roedd y pryderon a nodwyd yn cynnwys llwybrau gwael i mewn i'r dref, ffyrdd anneniadol yn arwain i'r dref, ardaloedd canolog sy'n cael eu tanddefnyddio, a diffyg cysylltiad rhwng cymdogaethau a'r canol
- **Cefnogi llif** – Nododd pobl nad yw'r cynllun yn cefnogi llif na gweledegdd: mae'r asedau mwyaf deniadol fel pe baent wedi'u cuddio yn hytrach nag wedi'u cysylltu.

Nododd ein hadolygiad ein hunain a'r ymgynghoriad y canlyniadau creu lleoedd canlynol ar gyfer lleoliad yn Llanelli:

- Mwy o weithredu ynghylch polisi cynllunio canol y dref yn gyntaf
- Gwella cysylltiadau rhwng y dref a'r arfordir
- Gwella trefniant gofodol y dref
- Gwella adeiladau allweddol
- Gwella dwysedd preswyl yn y dref gyfagos
- Cydlynu polisïau/prosesau mewnol y Cyngor yn well i gefnogi datblygiad canol y dref
- Gwella'r modd o fesur a chyfathrebu cynnydd


Roedd yr adborth a gawsom drwy'r ymgynghoriad yn cynnwys:


*"Mae Marchnad Llanelli yn adnodd gwych i'r dref. Pa mor dda mae'n cael ei marchnata fel safle cyfan?"*

*"Ddim wedi bod yn lle da i fyw ynddo ers nifer o flynyddoedd. Mae'r lle wedi'i esgeuluso. Mae angen mwy o fywyd nos i bawb ei fwynhau. Angen plismona"*


*"Mae'n teimlo bod pob cyfle hamdden y tu fas i ganol y dref. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem fawr. Dyw Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (DDAS) yng nghanol y dref ddim yn helpu. Sa i'n credu bod pobl yn ymosodol wrth bobl ddieithr, ond er hynny dyw e ddim yn beth braf cerdded heibio pobl yn cwympo mas yn uchel"*

*"Mae Llanelli yn cael ei anghofio. Mae'r sir yn trio gwneud gormod, mae popeth yn dod trwy Sir Gaerfyrddin"*


URBAN
FOUNDRY
Grid hanesyddol
Ardal lle mae'r strwythur gofodol wedi mynd ar chwâl ac mae angen ei unioni
Mae datblygiadau modern wedi tarfu'n sylweddol ar ffurf ofodol y dref.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025. Arolwg Ordnans 100023377
© Crown Copyright and database rights 2025. Ordnance Survey 100023377


URBAN
FOUNDRY
Ffryntiadau Gweithredol
Cefnau Diamddiffyn/
Ffryntiadau Marw
Mae amharu ar ffurf ofodol y dref wedi creu llawer o ffryntiadau 'marw'.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025. Arolwg Ordnans 100023377
© Crown Copyright and database rights 2025. Ordnance Survey 100023377


URBAN
FOUNDRY
Parcio Ceir (Nid i gyd yn gyhoeddus)
Parcio Preifat
Mae cryn dipyn o dir gwerthfawr wedi'i neilltuo i barcio ceir, llawer ohono i feysydd parcio arwyneb.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025. Arolwg Ordnans 100023377
© Crown Copyright and database rights 2025. Ordnance Survey 100023377


URBAN
FOUNDRY
Achos Clir
Gwerth ei archwilio
Mae angen ailddatblygu sawl ardal allweddol ar frys, ac mae yna ardaloedd eraill sy'n llai brys ond sy'n werth eu harchwilio
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025. Arolwg Ordnans 100023377
© Crown Copyright and database rights 2025. Ordnance Survey 100023377

# Yr amgylchfyd cyhoeddus

Ar gyfer thema'r amgylchfyd cyhoeddus mae gennym ddiddordeb mewn deall pa mor ddiogel mae mannau cyhoeddus yn teimlo yn Llanelli, pa mor wyrdd yw'r dref a pha mor dda mae'r mannau cyhoeddus yn teimlo fel 'mannau pobl'.


**Mae'r egwyddorion creu lleoedd yn diffinio'r maes hwn fel:**

Amgylchfyd cyhoeddus – mae strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u diffinio'n dda, maent yn groesawgar, yn ddiogel ac yn gynhwysol gyda hunaniaeth unigryw. Maent wedi'u cynllunio i fod yn gadarn ac yn addasadwy gyda thirwedd, seilwaith gwyrdd a draeniau cynaliadwy wedi'u hintegreiddio'n dda. Maent wedi'u cysylltu'n dda â lleoedd presennol ac yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac ystod o weithgareddau i bawb.

# Beth wnaethom ei ddarganfod

**Drwy'r ymgynghoriad, at ei gilydd cafodd 'Yr amgylchfyd cyhoeddus' sgôr o 3.3 allan o 10 yn Llanelli**

Mae'r dadansoddiad manylach yn dangos teimlad cryf bod angen mwy o wyrddni yn y dref. Roedd yna hefyd deimladau cryfion bod y dref yn teimlo'n anniogel ar ôl iddi dywyllu a bod y mannau cyhoeddus yn anneniadol.



## Nododd yr ymgynghoriad y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Cynnal a chadw** – Nodwyd bod canol y dref yn ddirywiedig, yn frwnt ond heb falchder yn anad dim. Caiff goleuadau, gwyrddni, a gwaith tirweddu i gyd eu disgrifio fel rhai annigonol neu sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n wael
- **Amgylchedd** – Cafodd adeiladau anniben, blaenau siopau, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ysbwriel eu nodi fel elfennau sy'n cyfrannu at yr ymdeimlad bod pawb wedi troi eu cefnau ar ganol y dref
- **Croesawgar** – Mae galw mawr am amgylchedd glanach, mwy diogel a gynhelir yn well sy'n teimlo'n groesawgar yn hytrach na chodi ofn ar bobl

Nododd ein hadolygiad ein hunain a'r ymgynghoriad y canlyniadau creu lleoedd canlynol ar gyfer yr amgylchfyd cyhoeddus yn Llanelli:

- Cynnal a chadw a gwella mannau presennol
- Mwy o seilwaith gwyrdd ar hyd a lled y dref
- Mwy o gyfleoedd i chwarae yn y strydlun
- Mwy o bobl yn gwneud mwy o ddefnydd o leoedd cyhoeddus (a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol o ganlyniad)
- Gwella diogelwch ar y stryd (yn enwedig gyda'r nos)

Roedd yr adborth a gawsom drwy'r ymgynghoriad yn cynnwys:

*"Fi'n meddwl bod llawer o'r celf stryd yn edrych yn anniben ac yn gwneud i'r dref edrych yn waeth. Dylai unrhyw gelf stryd weddu i'r ardal, gyda lliwiau a dyluniadau bywiog a deniadol. Nid collages wedi'u taflu at ei gilydd rywsiap rywffordd"*

*"Mwy o fuddsoddiad mewn gwella tirwedd y strydoedd. Mwy o wyrddni wedi'i gynnal a chadw'n dda. Presenoldeb gan yr heddlu at ddibenion diogelwch"*

*"Dim ots pa broblemau sydd gan dref, dylai fod yn lân. Dyw pobl ddim eisiau ymweld i edrych ar sbwriel a baw"*

*"Nid yw'r dref yn lân nac wedi'i chynnal a chadw. Mae mannau cyhoeddus yn amhleserus, ac angen mwy o wyrddni. Mae sbwriel yn holl aleau'r dref ac mae'n edrych wedi'i hesgeuluso a bod angen cot o baent arni ac ati. Fydda i byth yn mynd i'r dref ar ôl iddi dywyllu, hyd yn oed yn ystod y dydd mae grwpiau o bobl yn hongian o gwmpas sy'n gwneud iddi deimlo'n anniogel. Mae gormod o leoedd gwag yn ychwanegu at yr esgeulustod. Lleoedd newydd yn cael eu hadeiladu ond cymaint o hen adeiladau a siopau gwag"*

# Symudiad

Ar gyfer y thema symudiad mae gennym ddiddordeb mewn deall pa mor hawdd yw hi i gyrraedd Llanelli, pa mor hawdd yw hi symud o gwmpas y dref, ac a yw hyn yn haws neu'n anoddach yn dibynnu ar lefel symudedd. Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn deall sut mae'r gwahanol rannau o'r system drafnidiaeth yn cysylltu gyda'i gilydd.


**Mae'r egwyddorion creu lleoedd yn diffinio'r maes hwn fel:**

Rhoddir blaenoriaeth i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn darparu dewis o ddulliau trafnidiaeth ac osgoi dibyniaeth ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol wedi'u cynllunio'n dda ac yn ddiogel yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol ehangach, ac mae gorsafoedd ac arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u hintegreiddio'n dda.

# Beth wnaethom ei ddarganfod

**Drwy'r ymgynghoriad, at ei gilydd cafodd 'Symudiad' sgôr o 3.6 allan o 10 yn Llanelli**

Mae'r dadansoddiad manylach yn dangos bod pobl yn ei chael hi'n hawdd mynd o gwmpas canol y dref unwaith y maent yno. Ond dywedodd pobl eu bod eisiau gweld mwy o fannau parcio ceir, ac nad oeddent yn teimlo ei bod yn ddiogel beicio yng nghanol y dref ac o gwmpas canol y dref.



## Nododd yr ymgynghoriad y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Diffyg diogelwch** – Roedd gan bobl bryderon ynghylch ymddygiad anniogel mewn perthynas â phobl ar sgwteri, e-feiciau a gyrru'n rhy gyflym, ac oherwydd traffig trwm o amgylch canol y dref
- **Parcio** – Roedd hwn yn achosi rhwystredigaeth i lawer o bobl oherwydd diffyg lleoedd, neu roedd y lleoedd yn rhy ddrud neu heb eu rheoli'n dda
- **Blaenoriaethu ceir** – Teimlai pobl bod canol y dref yn canolbwyntio ar geir, gan ei wneud yn amhleserus ac anniogel i gerddwyr
- **Trafnidiaeth gyhoeddus** – Nodwyd ei fod yn anghyson ac yn anghyfleus, ac roedd dyhead am ddarpariaeth fysiau gwell a chysylltiadau mwy dibynadwy i mewn i'r dref ac o'i chwmpas
- **Beicio** –Nodwyd dau anhawster yn yr ymgynghoriad: diffyg llwybrau beicio a hefyd ofn beicwyr a sgwteri'n symud rywsut-rywsut mewn ardaloedd i gerddwyr

Nododd ein hadolygiad ein hunain a'r ymgynghoriad y canlyniadau creu lleoedd canlynol ar gyfer symudiad yn Llanelli:

- Gwella'r amgylchedd i gerddwyr
- Gwella'r seilwaith beicio
- Gwella cysylltiadau â'r orsaf drenau a thu hwnt
- Gwella trafnidiaeth gyhoeddus
- Ffyrdd mwy diogel
- Gwella mynediad i ganol tref Llanelli ar gyfer arosiadau byr

Roedd yr adborth a gawsom drwy'r ymgynghoriad yn cynnwys:

*"Dylai profiad symud Llanelli wneud i bobl eisiau cerdded, oedi ac archwilio. Ar hyn o bryd, mae llawer o ganol y dref yn teimlo'n ddarniog, yn ffafrio ceir mewn mannau ac yn ddigyswllt i gerddwyr a beicwyr. Dylid anelu at greu llwybrau cysylltiedig ar raddfa ddynol, sy'n cysylltu cyrchfannau allweddol (yr orsaf drefnau, Stryd Stepney, y farchnad, Porth y Dwyrain a llwybr yr arfordir) ar hyd coridorau deniadol, diogel a llawn gweithgarwch."*

*"Lleoliad gwych, yn agos at Benrhyn Gŵyr. Mae hefyd yn agos at yr M4 a phrif lein y rheilffordd felly cysylltiadau da"*

*"Rhoi stop ar y twpsod sy'n mynd fel y diawl ar e-feiciau a sgwteri."*

*"Rwy'n cerdded i bobman oherwydd bod y bysiau'n annibynadwy. Dim gwybodaeth am lwybrau"*

# Cymysgedd o ddefnyddiau

Ar gyfer y thema cymysgedd o ddefnyddiau, mae gennym ddiddordeb mewn deall pa mor dda yw Llanelli fel cymysgedd o le i fyw ynddo, dysgu, gweithgareddau diwylliannol/hamdden a swyddogaethau swyddfa ochr yn ochr ag adwerthu.


**Mae'r egwyddorion creu lleoedd yn diffinio'r maes hwn fel:**

Mae gan leoedd ystod o ddibenion sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol, twf busnesau lleol a mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus. Mae dwysedd datblygu a chymysgedd o ddefnyddiau a deiliadaeth yn helpu i gefnogi cymuned amrywiol ac amgylchfyd cyhoeddus bywiog.

# Beth wnaethom ei ddarganfod

**Drwy'r ymgynghoriad, at ei gilydd cafodd 'Cymysgedd o ddefnyddiau' sgôr o 3.6 allan o 10 yn Llanelli**

Drwy'r ymgynghoriad roedd barn pobl ar y cymysgedd o ddefnyddiau yng nghanol y dref yn negyddol. Nid oedd pobl yn teimlo bod yna gymysgedd da, neu fod canol y dref yn lle da i fyw ynddo.



## Nododd yr ymgynghoriad y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Yr arlwy adwerthu** – Roedd canfyddiad bod yr arlwy adwerthu wedi mynd ar chwâl gyda gormod o unedau gwag a siopau fêps a dim digon o gyfleoedd adwerthu 'go iawn'
- **Cymysgedd gwell** – Roedd pobl eisiau cymysgedd a chyfuniad gwell o siopau, bwyd, hamdden, defnyddiau cymunedol ac economi gyda'r nos
- **Mwy o gyfleoedd** – Roedd dyhead cryf am fwy o fusnesau annibynnol, adwerthwyr newydd, cyfleusterau wedi'u diweddaru, a mwy o weithgareddau diwylliannol neu gymdeithasol i deuluoedd, plant a phobl ifanc
- **Hamdden dan do** – Diffyg cyfleoedd diogel, dan do, yn enwedig gweithgareddau hamdden a phethau i'w gwneud yn lleol

Nododd ein hadolygiad ein hunain a'r ymgynghoriad y canlyniadau creu lleoedd canlynol ar gyfer y cymysgedd o ddefnyddiau yn Llanelli:

- Gwella'r cymysgedd o ddefnyddiau yng nghanol y dref
- Cynyddu'r defnydd o'r amgylchfyd cyhoeddus ar gyfer hamdden
- Mwy o fusnesau newydd yn cael cymorth
- Gwella adeiladau allweddol o gwmpas y dref

Roedd yr adborth a gawsom drwy'r ymgynghoriad yn cynnwys:

*"Mae angen mwy o siopau annibynnol a fydd yn aros, i roi cyfle i bobl siopa'n lleol. Dim llawer ar gael i blant na phobl hŷn, os oes, mae angen mwy o hysbysebu. Llawer llai o weithgareddau hamdden nawr bod y ganolfan hamdden wedi symud i... Mae angen mwy o ddigwyddiadau arbennig i ddenu pobl i'r dref o'r ardaloedd cyfagos. Mwy o seddi tu fas i gaffis yn ystod tywydd poeth i greu atmosffer arbennig yn y canol. Digwyddiadau dros dro sy'n cynnwys diwylliant/ cerddoriaeth/ crefftau/ dawnsio/ celfyddydau i fywiogi'r canol."*

*"Mae'r dref wedi dirywio, diffyg amrywiaeth yn y profiad siopa, dim prif gadwyni heblaw Asda, dim dewis o ran dillad, fel arfer yn mynd i Gaerfyrddin neu Abertawe/ Caerdydd i gael amrywiaeth ac ansawdd. Gormod o siopau elusen a blaenau siopau ar gau. Cwpl o gaffis neis, byddai'n dda gweld mwy o ddiwylliant coffi yn Llanelli, bwytai gwell ac amrywiaeth heblaw tafarndai. Ddim yn ymwybodol o unrhyw beth sydd ar gael i bobl ifanc a phlant. Pobl hŷn - mae Plas Llanelly'n cynnig ychydig o gyrsiau, ddim yn ymwybodol o unrhyw weithgareddau i bobl hŷn heblaw am hynny. Siopau bwyd cyfyngedig, dim cigydd/siop bysgod ac ati,"*

# Hunaniaeth

Ar gyfer y thema hunaniaeth, mae gennym ddiddordeb mewn deall beth yw nodweddion Llanelli sy'n ei gwneud yn unigryw ac a yw Llanelli yn gwneud y mwyaf o'r nodweddion hyn.


**Mae'r egwyddorion creu lleoedd yn diffinio'r maes hwn fel:**

Mae rhinweddau cadarnhaol, unigryw lleoedd presennol yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Caiff nodweddion a chyfleoedd unigryw lleoliad, gan gynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith, nodweddion ffisegol adeiledig a naturiol, eu nodi ac ymatebir iddynt.

# Beth wnaethom ei ddarganfod

**Drwy'r ymgynghoriad, at ei gilydd cafodd 'Hunaniaeth' sgôr o 3.3 allan o 10 yn Llanelli**

Drwy'r ymgynghoriad caiff hunaniaeth ei nodi'n glir fel cyfle pwysig. Roedd pobl yn cytuno y dylid gwneud mwy i amddiffyn a hyrwyddo treftadaeth canol y dref a'i gwneud yn lle y mae pobl yn teimlo'n falch ohono.



## Nododd yr ymgynghoriad y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Colli hunaniaeth** – Roedd ymdeimlad cryf ymysg pobl y dref fod Llanelli wedi colli ei hunaniaeth, ei balchder a'i phwrpas
- **Diffyg unigrywiaeth** – Teimlai pobl bod Llanelli wedi dirywio o fod yn dref hanesyddol ffyniannus i ganolfan wedi'i hesgeuluso heb lawer o gydlyniad, apêl neu unigrywiaeth
- **Adfer a dathlu** – Roedd ymdeimlad cryf bod ar bobl eisiau adfer a dathlu cymeriad, diwylliant, hanes ac ysbryd cymunedol y dref
- **Gweledigaeth** – Mae teimlad y gallai Llanelli fod yn lle unigryw, deniadol eto – ond mae angen gweledigaeth, y celfyddydau, treftadaeth ac egni cymunedol i yrru'r broses yn ei blaen

Nododd ein hadolygiad ein hunain a'r ymgynghoriad y canlyniadau creu lleoedd canlynol ar gyfer hunaniaeth yn Llanelli:

- Mwy o ymdeimlad o hunaniaeth i'r dref
- Cryfhau'r sector diwylliannol lleol
- Gwella brand y lle
- Cryfhau'r iaith Gymraeg trwy weithgareddau creu lleoedd

Roedd yr adborth a gawsom drwy'r ymgynghoriad yn cynnwys:

*"Hyrwyddo'r Gymraeg. Byddai'n braf gweld mwy o'r iaith yn cael ei harddangos/defnyddio"*

*"Mae hunaniaeth y dref yn gawdel, sy'n naturiol i'r math hwn o dref. Ond byddai tynnu mwy o brosiectau treftadaeth a chelfyddydol i mewn yn bositif..... Efallai bod angen arnom edrych ar gyfleoedd preswyl gyda'r eiddo hŷn, gan fod gennym fwy na digon o unedau masnachol ar y foment"*

*"Mae'r Cyngor wedi dileu unrhyw hunaniaeth a oedd gan Lanelli trwy ddymchwel yr holl adeiladau a seilwaith hyfryd. Roedd hi'n arfer bod yn lle mor hardd i fyw ynddo a nawr mae'n edrych dros y lle i gyd ac yn hyll, gyda llefydd allwch chi ddim mynd iddyn nhw a llanast. Mae angen glanhau'r cyfan, os gwelwch yn dda."*

*"Roedd gennym hunaniaeth trwy ein gweithfeydd/diwydiannau. Mae angen i ni greu hunaniaeth newydd. Mae yma gymunedau cryf o hyd. Amrywiaeth o sgiliau o swyddi blaenorol"*

# Pobl a chymuned

Ar gyfer y thema pobl a chymuned, mae gennym ddiddordeb mewn pa mor dda yw'r partneriaid allweddol yn y dref am greu cyfranogiad cymunedol gwirioneddol fel proses barhaus.


**Mae'r egwyddorion creu lleoedd yn diffinio'r maes hwn fel:**

Mae'r gymuned leol yn ymwneud â datblygu cynigion. Mae anghenion, dyheadau, iechyd a llesiant pawb yn cael eu hystyried ar y dechrau. Caiff cynigion eu llunio i helpu i ddiwallu'r anghenion hyn yn ogystal â chreu, integreiddio a diogelu a/neu wella ymdeimlad o gymuned ac i hyrwyddo cydraddoldeb.

# Beth wnaethom ei ddarganfod

**Drwy'r ymgynghoriad, at ei gilydd cafodd 'Pobl a chymuned' sgôr o 3.5 allan o 10 yn Llanelli**

Drwy'r ymgynghoriad roedd teimlad cryf nad oedd pobl yn teimlo eu bod nhw'n ymwneud â dyfodol y dref ac roedd ymdeimlad cryf nad oedd pobl yn meddwl bod eu barn yn cael ei chlywed.



## Nododd yr ymgynghoriad y pwyntiau allweddol canlynol:

- **Diffyg ymddiriedaeth** – Nodwyd nad oedd pobl yn ymddiried yn y broses benderfynu yn lleol. Teimlai pobl bod gwaith ymgynghori'n symbolaidd
- **Gwell tryloywder** – Roedd ar bobl eisiau mwy o dryloywder, cyfathrebu mwy clir a chyfleoedd gwirioneddol i ddylanwadu ar ddyfodol eu tref
- **Gwrando** – Roedd pobl yn teimlo bod buddsoddiadau'n cael eu cyfeirio at brosiectau a ystyriant yn aneffeithiol neu'n amherthnasol. Hoffant i'r Cyngor wrando ar y bobl leol a buddsoddi yn yr hyn yr oeddent yn dweud eu bod ei angen mewn gwirionedd

Nododd ein hadolygiad ein hunain a'r ymgynghoriad y canlyniadau creu lleoedd canlynol ar gyfer pobl a chymunedau yn Llanelli:

- Mwy o gyfleoedd i bobl fod yn rhan o ddatblygiad y dref
- Cydlynu polisïau/prosesau mewnol y Cyngor yn well i gefnogi datblygiadcanol y dref
- Gwella cysylltiadau â'r sector gwirfoddol
- Gwella arferion gweithio rhwng y Cyngor Tref a'r Cyngor Sir
- Creu trefi mwy iach

Roedd yr adborth a gawsom drwy'r ymgynghoriad yn cynnwys:

*"Yn gyffredinol, mae'n teimlo nad oes neb yn gwrando arnon ni fel pobl leol. Nid yw hyn yn annog rhywun i ymgysylltu, sydd wedyn yn gylch seithug"*

*Mae angen i'r broses ymgysylltu â'r cyhoedd yn Llanelli symud i ffwrdd o ymgyngoriadau un-tro a throi'n bartneriaeth wirioneddol, barhaus rhwng y bobl leol a'r rhai sy'n arwain prosiectau adfywio. Yn rhy aml, mae ymgysylltu'n teimlo fel ystum didaro, rhywbeth a wneir i'r gymuned yn hytrach na'i chynnwys yn y broses. Dylai pobl Llanelli fod yn rhan o'r broses ddylunio gyfan o'r weledigaeth gynnar, i lunio prototeip, profi ac ailadrodd parhaus. Mae hyn yn golygu cynnwys trigolion, masnachwyr a phobl ifanc yn y sgwrs yn rheolaidd wrth i'r cynlluniau ddatblygu, er mwyn iddynt weld eu syniadau'n cael eu hadlewyrchu yn y canlyniadau go iawn. Pan fydd pobl yn gallu edrych ar rywbeth yng nghanol y dref a dweud "ein syniad ni oedd hwn", neu "wnaethon ni helpu i greu hwn", mae'n adeiladu perchnogaeth wirioneddol, balchder ac ymddiriedaeth."*

# Y Strategaeth

Rydym yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar draws pob un o'r chwe egwyddor creu lleoedd. Gallwch ddarllen pob adran neu fynd i'r rheiny sydd o fwyaf o ddiddordeb i chi.

## Camau gweithredu

Rydym wedi creu codau lliw ar gyfer y camau gweithredu i helpu i ystyried pwy sydd fwyaf tebygol o arwain ar y camau hyn ac felly â phwy i gysylltu os oes gennych ddiddordeb mewn rhoi pethau ar waith:

- Mae **gwyrdd** yn gamau gweithredu y gall Cyngor Sir Caerfyrddin arwain arnynt
- Mae **oren** yn gamau gweithredu y gellir eu cyflawni mewn partneriaeth ag eraill yn unig

# Lleoliad

| Canlyniad | Cam Gweithredu (Gweler tudalen 41 am yr Allwedd i'r lliwiau) | Blaenoriaeth |
|---|---|---|
| Mwy o weithredu ynghylch polisi cynllunio canol y dref yn gyntaf | Asesu'r datblygiadau newydd, gan gynnwys dyfodol yr asedau presennol sy'n eiddo i'r Cyngor o ran yr effaith y maent yn ei chael ar ganol y dref | Uchel |
| | Gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ddeall eu cynlluniau hir dymor ar gyfer Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Dyfed | Uchel |
| Gwella cysylltiadau rhwng y dref a'r arfordir | Datblygu strategaeth bwrpasol ar gyfer Heol yr Orsaf er mwyn gwella cysylltiadau | Uchel |
| Gwella trefniant gofodol y dref | Edrych ar opsiynau ar gyfer De Stryd y Farchnad | Uchel |
| | Mynd i'r afael â chefnau sy'n agored i niwed ar draws y dref. Cryfhau ffryntiau a chysylltiadau i gyflawni hyn. | Canolradd |
| | Creu 'canllaw dylunio' syml ar gyfer datblygiadau er mwyn sicrhau y caiff rheolau sylfaenol dylunio trefol eu dilyn – ei ddarparu fel canllaw cynllunio ategol, ond hefyd ei atodi i unrhyw geisiadau grant ar gyfer adeiladau fel maen prawf sicrhau ansawdd' | Uchel |
| Gwella adeiladau allweddol | Ailddatblygu hen safle Iceland a gwella'r bloc gyda ffryntiau gweithredol | Uchel |
| | Creu datblygiadau mewnlenwi ar gyfer y maes parcio aml-lawr uwchben y farchnad | Uchel |
| | Ailddatblygu safle'r Ganolfan Hamdden | Uchel |
| Cynyddu dwysedd preswyl yn y dref gyfagos | Annog datblygiadau ar safleoedd mewnlenwi bach gan gynnwys un i'r gorllewin tuag at ben y 'cwr diwylliannol', ac i'r gogledd ar Stryd yr Eglwys er mwyn cryfhau'r blociau yn y ddau leoliad. | Canolradd |
| | Archwilio dyfodol safle'r Llysoedd a datblygu strategaeth sy'n cyd-fynd â dyfodol y dref | Canolradd |
| | Edrych ar opsiynau ar gyfer Adeiladau'r Goron a Crown Precinct | Canolradd |

| Canlyniad | Cam Gweithredu (Gweler tudalen 41 am yr Allwedd i'r lliwiau) | Blaenoriaeth |
|---|---|---|
| Cydlynu polisïau/ prosesau mewnol y Cyngor yn well i gefnogi datblygiad canol y dref | Edrych ar hawliau datblygu a ganiateir a sut y gellid eu newid er mwyn annog mwy o ddatblygiadau canol y dref gan berchnogion adeiladau | Uchel |
| | Creu llwybrau grantiau trywydd cyflym er mwyn caniatáu penderfyniadau cyflymach ar brosiectau â llai o risg a fydd yn creu enillion cyflym trwy fusnesau newydd/ prosiectau twf | Uchel |
| | Cydlynu gwasanaethau trwyddedu, gorfodi ac amgylcheddol i sicrhau set o egwyddorion rheoli cefnogol a rennir. Creu un pwynt cyswllt ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin | Uchel |
| | Datblygu dull 'tîm' ar y cyd ar gyfer mynd at fuddsoddwyr allanol. Mae'n cynnwys bod yn unedig o amgylch brand clir a nodau fel dull tîm traws-sectorol | Uchel |
| | Cefnogi busnesau bach i drawsnewid yn ddigidol er mwyn cystadlu'n well mewn byd ar-lein | Canolradd |
| | Cynorthwyo â micro-systemau ynni adnewyddadwy er mwyn helpu i liniaru newid hinsawdd ac i leihau costau canol y dref. Gallai hwn gynnwys toi biosolar ar safleoedd mwy o faint | Uchel |
| Gwella'r modd o fesur a chyfathrebu cynnydd | Sefydlu offeryn 'gwiriad iechyd canol trefi' | Uchel |
| | Rhoi adroddiad ar y sefyllfa bresennol trwy'r Tasglu bob blwyddyn | Uchel |

# Yr amgylchfyd cyhoeddus

| Canlyniad | Cam Gweithredu (Gweler tudalen 41 am yr Allwedd i'r lliwiau) | Blaenoriaeth |
|---|---|---|
| Cynnal a chadw a gwella mannau presennol | Archwilio cyfleoedd am berchnogaeth gymunedol ar fannau'r amgylchfyd cyhoeddus | Uchel |
| | Datblygu gweithgareddau a digwyddiadau ar y stryd yn yr amgylchfyd cyhoeddus wrth gyffyrdd Stryd Vaughan/Stryd Stepney a Stryd Cowell/Stryd Stepney – gall y rhain fod dros dro yn y camau cynnar a gallant fod ar ffurf prosiectau celfyddydol/diwylliannol neu brosiectau chwarae, ond hefyd digwyddiadau dros dro fel marchnadoedd/stondinau/ gwerthwyr ar y stryd | Uchel |
| Mwy o seilwaith gwyrdd ar hyd a lled y dref | Pennu cyfleoedd ar gyfer gwyrddu ar draws y dref trwy strategaeth seilwaith gwyrdd ar lefel drefol | Uchel |
| | Gwella Gerddi'r Ffynnon fel parc canol y dref | Uchel |
| Mwy o gyfleoedd chwarae ar y stryd | Ystyried cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau chwarae yng nghanol y dref | Uchel |
| Mwy o bobl yn gwneud mwy o ddefnydd o leoedd cyhoeddus (a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol o ganlyniad) | Cyflwyno mwy o blismona gweladwy, rheolaidd | Uchel |
| | Creu lleoedd deniadol i bobl eu mwynhau | Uchel |
| | Datblygu cynllun Croeso i Lanelli. Darparu llysgenhadon ar y stryd sydd â swyddogaeth alluogi a chroesawu yn hytrach na rheoleiddio (ond sy'n gallu helpu pan fydd problem) | Uchel |
| Gwella diogelwch ar y stryd (yn enwedig gyda'r nos) | Cynyddu unedau preswyl uwchben siopau yng nghanol y dref a sicrhau cymaint o wyliadwriaeth naturiol â phosibl | Uchel |
| | Gwella goleuadau mewn mannau tywyll at ddibenion diogelwch | Uchel |



*Cerflun dros dro yn Plymouth*




*Darparwyd y llun trwy garedigrwydd Robert Bray Associates*

*Draeniau trefol cynaliadwy amlswyddogaethol yn Llundain*




*Dargyfeirio pibelli i erddi glaw – seilwaith gwyrdd syml, cost isel yn Abertawe*



*Draenio trefol ar raddfa fach yn Portland, Oregon*

# Symudiad

| Canlyniad | Cam Gweithredu (Gweler tudalen 41 am yr Allwedd i'r lliwiau) | Blaenoriaeth |
|---|---|---|
| Gwella'r amgylchedd i gerddwyr | Gwella mannau croesi ar y ffordd gylchol, gan gryfhau'n arbennig y cysylltiadau dwyrain-gorllewin i gymunedau preswyl y tu hwnt i Stryd Stepney, a'r cysylltiadau gogledd-de trwy Gerddi'r Ffynnon i lawr Stryd Cowell at gymunedau preswyl. Gwella'r cysylltiad ar ben dwyreiniol Stryd yr Eglwys a gwella'r amgylchedd i gerddwyr ar groesffordd Stryd Murray. | Uchel |
| Gwella'r seilwaith beicio | Gweithio gyda Teithio Llesol i nodi cyfleoedd ar gyfer llwybrau beicio newydd. Canolbwyntio ar y cymunedau preswyl cyfagos i leihau nifer eu teithiau i ganol y dref mewn car trwy ddefnyddio dulliau teithio amgen | Canolradd |
| | Creu storfeydd diogel i feiciau preifat yng nghanol y dref | Uchel |
| | Asesu dichonoldeb cynllun llogi beiciau gyda hybiau ym Mhentre Awel, yr orsaf drenau a chanol y dref, sy'n caniatáu ar gyfer teithiau unffordd lle gellid gadael beiciau yn y cyrchfan | Uchel |
| Gwella cysylltiadau â'r orsaf drenau a thu hwnt | Sefydlu llwybr cylchol i fysiau a/neu drên ar y tir sy'n gwella trafnidiaeth gyhoeddus rhwng yr orsaf drenau, y glannau a chanol y dref | Uchel |
| | Gwella arwyddion a chyfeiriadau gweledol er mwyn cysylltu'r orsaf drenau/y glannau a chanol y dref yn well yn gorfforol ac yn thematig | Uchel |
| Gwella trafnidiaeth gyhoeddus | Gweithio gyda darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus i wella amlder a dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus | Uchel |
| Gwella mynediad i ganol tref Llanelli ar gyfer arosiadau byr | 30 munud o barcio di-dâl fel cynnig sylfaenol | Uchel |
| | Creu polisi danfoniadau sy'n pwysleisio defnydd tu allan i oriau swyddfa lle bynnag y bo'n bosibl | Uchel |
| | Darparu arwyddion byw sy'n hysbysebu nifer y lleoedd sydd ar gael er mwyn lleihau nifer yr hap-deithiau yn chwilio am le i barcio | Uchel |
| | Creu lleoedd codi/gollwng aros byr iawn (yn ddi-dâl) | Uchel |
| | Annog gweithwyr yng nghanol y dref i rannu ceir a chynnal cynlluniau i'w cymell i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus | Uchel |


URBAN
FOUNDRY
Llinellau symud allweddol
Llinellau symud a dorrwyd
Ymyraethau dylunio er mwyn gwella croesfannau cerddwyr yn sylweddol
Creu/gwella croesfannau llinell syth i gerddwyr/beicwyr
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025. Arolwg Ordnans 100023377
© Crown Copyright and database rights 2025. Ordnance Survey 100023377

# Cymysgedd o ddefnyddiau

| Canlyniad | Cam Gweithredu (Gweler tudalen 41 am yr Allwedd i'r lliwiau) | Blaenoriaeth |
|---|---|---|
| Gwella'r cymysgedd o ddefnyddiau yng nghanol y dref | Edrych ar opsiynau trwy'r system gynllunio a gweithredu uniongyrchol i gefnogi unedau preswyl o fathau a deiliadaethau cymysg yn y dref yn enwedig uwchben siopau, gan gydnabod yr heriau penodol sy'n gysylltiedig â nitradau yn y dref | Uchel |
| | Ystyried y dyhead am boblogaeth breswyl sylweddol fwy yng nghanol y dref mewn perthynas â'r polisi ysgolion i sicrhau nad yw'n rhwystro cynlluniau hirdymor | Uchel |
| | Ceisio datblygu a chadw 'diwydiannau allforio' yng nghanol y dref a'r cyffiniau – gwasanaethau proffesiynol a diwydiannau creadigol yn arbennig | Canolradd |
| | Ysgogi'r hen siop EE fel safle cornel allweddol, gan ei fod yn wynebu rhan allweddol o dir y cyhoedd | Uchel |
| | Edrych ar fecanweithiau i gryfhau'r economi nos a'r economi profiadau gan ganolbwyntio'n benodol ar gyfleoedd sy'n denu pobl hŷn a phobl ifanc i'r dref | Uchel |
| | Edrych ar opsiynau ar gyfer dulliau sy'n helpu i amrywio'r arlwy adwerthu | Uchel |
| Mwy o fusnesau newydd yn derbyn cymorth | Parhau i ddatblygu gofodau dros dro a chyfamserol, gyda phwyslais arbennig ar Stryd Stepney | Uchel |
| | Cysylltu busnesau newydd â'r cymorth busnes presennol | Uchel |
| Gwella adeiladau allweddol ar draws y dref | Parhau i ddatblygu gofodau dros dro a chyfamserol, gyda phwyslais arbennig ar Stryd Stepney | Uchel |
| | Ystyried sut y gallai mentrau sydd y tu allan i ganol y dref ar hyn o bryd ddod â phresenoldeb i ganol y dref. | Uchel |
| Cynyddu'r defnydd o'r amgylchfyd cyhoeddus ar gyfer hamdden | Gwella ymhellach y berthynas bresennol â phartneriaid lleol allweddol i wneud gwell defnydd o fannau cyhoeddus, gan wneud lleoedd i bobl dreulio amser yno a'u mwynhau'n anffurfiol, yn ogystal â digwyddiadau mwy ffurfiol wedi'u trefnu | Uchel |




*Prosiect dros dro Unit Nineteen yn Abertawe*




*Mannau dros dro a gyflwynwyd yn Llanelli yn flaenorol*




*Gwneud defnydd dros dro o unedau gwag*

# Hunaniaeth

| Canlyniad | Cam Gweithredu (Gweler tudalen 41 am yr Allwedd i'r lliwiau) | Blaenoriaeth |
|---|---|---|
| Mwy o ymdeimlad o hunaniaeth i'r dref | Datblygu rhaglen benodol o ddigwyddiadau gyda'r nod o ddenu pobl i'r dref ac i adnabod a gwerthfawrogi ei chryfderau | Uchel |
| Cryfhau'r sector diwylliannol lleol | Creu fforwm creadigol/ diwylliannol, sydd wedi'i gynrychioli ar y Tasglu. Cynorthwyo trwy ysgrifenyddiaeth. | Uchel |
| | Cefnogi rhanddeiliad i wneud cais am fod yn Dref Diwylliant pan fo'n briodol | Uchel |
| | Ymgeisio am arian i ddatblygu rhaglen gelfyddydol yn y dref mewn partneriaeth ag arweinydd yn y sector gwirfoddol. Cynnwys rhaglen gerddoriaeth bwrpasol sy'n helpu i ailsefydlu cartref gwlad y gân fel hunaniaeth ac adeiladu ar draddodiadau corawl | Uchel |
| | Adeiladu ar asedau lleol fel y Ffwrnes, Gŵyl Ffilmiau Bae Caerfyrddin, Ymlaen Llanelli, People Speak Up ac eraill sydd eisoes ar waith i'w cryfhau nhw a'u gweithgareddau presennol, ond hefyd i gynhyrchu ar y cyd trwy weithio'n well mewn partneriaeth | Uchel |
| | Ceisio creu clwstwr o ddiwydiannau creadigol yn seiliedig ar gryfderau'r diwylliant creadigol lleol sef cwmni Tinopolis a Gŵyl Ffilmiau Bae Caerfyrddin | Uchel |
| | Edrych ar ddichonoldeb cynigion i greu 'cwr diwylliannol' ar Stryd John | Uchel |
| Gwella brand y lle | Creu hunaniaeth frand sy'n chwarae ar beth sydd yno y gellid adeiladu arno | Canolradd |
| | Creu strategaeth ddiwylliannol lefel drefol sy'n canolbwyntio ar adeiladu ar yr asedau presennol | Uchel |
| | Edrych ar sut y gellid cynnwys hunaniaeth y Scarlets yn y dref yn well | Uchel |
| | Sefydlu cysylltiadau thematig (ynghyd â chorfforol) gyda'r adwerthu ar gyrion y dref a'r Scarlets. Sefydlu hunaniaeth ddiwylliannol canol y dref, sy'n cynnwys siopau annibynnol, hamdden, profiadau bwyd a diodydd, a'r celfyddydau | Uchel |
| | Gosod goleuadau ar yr holl adeiladau hanesyddol | Uchel |
| | Ystyried goleuo digwyddiadau a gweithgareddau yn ystod misoedd tywyll y gaeaf | Uchel |
| | Edrych ar sut y gallai'r Ffwrnes ysgogi gwerthiannau bwyd a diod trwy gysylltu hyrwyddiad â gwerthiannau tocynnau – 'swper a sioe' gan ganolbwyntio'n benodol ar BBaCh | Canolradd |
| Cryfhau'r iaith Gymraeg trwy weithgareddau creu lleoedd | Creu strategaeth Gymraeg hawdd ei gweithredu sydd wedi'i chynllunio gyda'r holl bartneriaid mewn golwg i helpu i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith bob dydd | Canolradd |



*Goleuadau nodwedd ar adeiladau o arwyddocâd yn Lille*



*Mae marchnadoedd stryd yn dod â bywyd i fannau cyhoeddus yn ogystal â chyfleoedd masnachu i fusnesau bach lleol yn Llanelli*



*Darparwyd y llun trwy garedigrwydd Ymlaen Llanelli*




*Darparwyd y llun trwy garedigrwydd Gŵyl Ffilmiau Bae Caerfyrddin*

# Pobl a chymuned

| Canlyniad | Cam Gweithredu (Gweler tudalen 41 am yr Allwedd i'r lliwiau) | Blaenoriaeth |
|---|---|---|
| Mwy o gyfleoedd i bobl fod yn rhan o ddatblygiad y dref | Parhau i ailffocysu'r Tasglu. Sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar yrru newid (rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol). Datblygu diwylliant o ymagwedd 'dîm' gan gynnwys gwella'r ddealltwriaeth o'r cyfyngiadau sydd ar weithrediadau awdurdodau lleol a chanolbwyntio ar gamau gweithredu | Uchel |
| | Cefnogi mwy o weithgareddau gyda phobl ifanc | Uchel |
| | Creu rhaglen o ymgysylltu â'r gymuned yn rheolaidd ynglŷn â datblygiad y dref | Uchel |
| Gwella cysylltiadau â'r sector gwirfoddol | Cefnogi sefydliadau yn y sector gwirfoddol ac edrych ar sut i ymgysylltu â hwy fel partneriaid cymunedol | Uchel |
| Gwella gweithio rhwng y Cyngor Tref a'r Cyngor Sir | Creu strategaeth fwy cydgysylltiedig rhwng y Cyngor Sir a'r Cyngor Tref ar gyfer cyflawni ac ariannu creu lleoedd | Uchel |
| Mwy o ddefnydd o greu lleoedd i gael trefi iachach | Dod â gofal iechyd yn agosach at bobl drwy fabwysiadu cwestiwn 'canol tref yn gyntaf' ar gyfer pob penderfyniad yn y dyfodol sy'n ymwneud â chyfleusterau gofal iechyd | Uchel |
| Cydlynu polisïau/prosesau mewnol y Cyngor yn well i gefnogi datblygiad canol y dref | Cynnal cyfarfodydd traws-sectorol rheolaidd yn y Cyngor, gan ganolbwyntio ar gamau gweithredu creu lleoedd | Uchel |
| | Archwilio sut y gellir gwella trefniadau caffael i gryfhau busnesau yng nghanol y dref (ac yn fwy cyffredinol busnesau yn Sir Gaerfyrddin) | Uchel |
| | Mabwysiadu gwerth cymdeithasol yn yr holl waith caffael | Uchel |




*Gweithdy ymgynghori'r Tasglu ar greu lleoedd*

# Newid ar waith

Caiff y gwaith o greu lleoedd ei gyflawni gan bartneriaeth. Mae'n amlwg bod gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Tref Llanelli rôl bwysig ochr yn ochr â chyrff eraill, yn enwedig Ardal Gwella Busnes (AGB) Llanelli a Siambr Fasnach Llanelli. Ond partneriaid ehangach gan gynnwys trigolion, y sector cymunedol a gwirfoddol a'r sector preifat fydd yn helpu i gyflawni'r newid a nodir yn y strategaeth hon.

# Newid ar waith yn Llanelli

Mae gan Lanelli eisoes Dasglu. Mae'r grŵp hwn yn dwyn ynghyd bobl o bob rhan o'r dref, a byddant yn gyfrifol am yrru camau allweddol o fewn y strategaeth. Ond gall unrhyw un gymryd rhan. Os oes gennych syniad am sut i fwrw ymlaen ag un o'r camau gweithredu a nodir yn y strategaeth hon, cysylltwch â Chyngor Sir Caerfyrddin i drafod camau cyntaf sut i symud ymlaen.

Bydd y Tasglu'n adolygu mesurau allweddol er mwyn deall y cynnydd a wneir ym mhob maes. Darperir fframwaith manwl yn yr atodiad technegol, ond bydd cynnydd yn cael ei farnu ar sail y meysydd canlynol.

| Thema Creu Lleoedd | Dangosydd | Pwyntiau allweddol |
|---|---|---|
| Lleoliad | Nifer yr ymwelwyr<br>Lefel y gweithgarwch economaidd<br>Lefel y diweithdra | Bydd hyn yn ein helpu i ddeall sut mae pobl yn defnyddio'r dref a beth yw cryfder sylfaenol y dref |
| Yr amgylchfyd cyhoeddus | A yw'r amgylchedd lleol yn ddymunol ac yn derbyn gofal da (Arolwg Preswylwyr Sir Gâr) | Bydd hyn yn rhoi synnwyr cyffredinol i ni o sut mae'r amgylchfyd cyhoeddus yn cael ei weld |
| Symudiad | Boddhad â thrafnidiaeth (Arolwg Preswylwyr Sir Gâr)<br>Metrau o lonydd beicio a grëwyd neu a wellwyd | Caiff trafnidiaeth gyhoeddus ei rheoli y tu allan i awdurdodau lleol. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw'r cynnydd yn gwella |
| Cymysgedd o ddefnyddiau | Nifer yr unedau gwag<br>Nifer yr adeiladau a ailddefnyddir | Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw adeiladau allweddol yn cael eu defnyddio yng nghanol y dref ac a oes galw mawr neu fel arall am leoedd sydd ar gael yn y dref |
| Hunaniaeth | Cynnydd mewn ymweliadau â'r dudalen we<br>Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i'r gyrchfan y cytunwyd arni<br>Ydych chi'n hoffi byw yn Sir Gaerfyrddin<br>Canran y siaradwyr Cymraeg | Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw'r camau gweithredu yn cefnogi trigolion lleol, ymwelwyr a'r Gymraeg |
| Pobl a chymuned | A yw'r Cyngor yn rhoi cyfleoedd i gymryd rhan mewn penderfyniadau (Arolwg Preswylwyr Sir Gâr) | Bydd hyn yn ein helpu i ddeall sut mae pobl yn gweld gwasanaethau'r Cyngor. |

**I fod yn rhan o'r gwaith o gyflawni elfennau o'r cynllun, cysylltwch â ni i drafod sut y gallwch gymryd rhan yn Trefi@sirgar.gov.uk**

URBAN

FOUNDRY